# Amodau Cofrestru 2025/26

Cytundeb Atodol (Nyrsio)

## Cynnwys


Amodau Cofrestru 2025/26 Cytundeb Atodol (Nyrsio)........................................................ 1

**Cynnwys ........................................................................................................ 1**

**Fformat Amgen........................................................................................................ 3**

**Cyflwyniad ........................................................................................................ 3**

**Cwmpas ........................................................................................................ 4**

Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu ........................................................ 4

Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu........................................................ 4

**Cymorth a Gwybodaeth ........................................................................................ 4**

**Sut i gysylltu â ni........................................................................................ 4**

Bwlio, Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol ........................................................ 6

**Rhoi gwybod am Fwlio ac Aflonyddu** ........................................................ 6

**Prif delerau'r Cytundeb Atodol........................................................................ 6**

1 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer........................ 6

2 Cyfnodau Ymarfer Dysgu ........................................................................ 10

3 Terfynu Cyflogaeth a/neu Nawdd ........................................................ 12

4 Terfynu Cofrestriad........................................................................ 14

5 Eich Astudiaethau ........................................................................ 16

6 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data ........................................................ 17

7 Tynnu'n ôl o'ch astudiaethau neu eu gohirio ............................................ 20

**Diffiniadau........................................................................................................ 21**

Prentis /Dysgwr ........................................................................................ 21

Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid ........................................................ 21

**Ffurflen Addasu Prentisiaeth**........................................................................ 21

Y Cod 21

Cyswllt Cyflogi........................................................................................ 22

Noddwr Ariannol.......... 22
Contract Anrhydeddus.......... 22
Llwybr Annibynnol.......... 22
Cyflogwr Llwybr Annibynnol.......... 22
Cyswllt Cyflogwr Llwybr Annibynnol.......... 23
Noddwr Dysgu.......... 23
Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.......... 23
Cymhwyster Nyrsio.......... 23
Darparwr Lleoliad.......... 23
Asesydd Ymarfer.......... 23
Cyfleoedd Ymarfer Dysgu.......... 23
Cyfnod Ymarfer Dysgu.......... 24
Goruchwyliwr Ymarfer.......... 24
Tiwtor Ymarfer.......... 24
Rhaglen Nyrsio Cyn Cofrestru.......... 24
Tiwtor Staff 24
Tîm Cymorth Myfyrwyr.......... 24
Aelod o staff ychwanegol.......... 25
Ni/Ein 25
**Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig.......... 25**
Safonau'r Gymraeg.......... 25
Gwerthoedd Siarter Ein Myfyrwyr.......... 26
Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.......... 26
Datganiad yr Elusen.......... 26
**Ynglŷn â'r Ddogfen hon.......... 26**
Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol.......... 26
Amodau Cofrestru a Ddisodlir gan y Ddogfen hon.......... 28
Gwybodaeth am y Ddogfen.......... 29
**Atodiad A.......... 30**
Tabl 1: Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i fyfyrwyr gwblhau eu cymhwyster.......... 30

## Fformat Amgen

Os oes angen y ddogfen Amodau Cofrestru 2025/26 Cytundeb Atodol (Nyrsio) hon arnoch mewn fformat amgen, Cysylltwch â Ni (ewch i www.open.ac.uk/contact), ffoniwch ni ar +2025 (26)300 303 5303, neu cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr drwy StudentHome os ydych yn astudio gyda'r Brifysgol Agored ar hyn o bryd. Os ydych yn dilyn prentisiaeth, cysylltwch â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru ar Brentisiaeth drwy e-bostio apprentice-support@open.ac.uk neu ffonio (+44 (0) 300 303 4121).

Mae croeso i Fyfyrwyr a Dysgwyr Cymraeg eu hiaith siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg drwy ffonio +44 (0) 29 2047 1170. Rydym yn croesawu cyswllt yn Gymraeg

**An English language version of this policy is available.**

**Mae fersiwn Saesneg o'r polisi hwn ar gael hefyd.**

## Cyflwyniad

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn nodi'r telerau ychwanegol y cytunwyd arnynt â'r Brifysgol Agored ar gyfer astudio tuag at raglen Nyrsio Cyn Cofrestru (gan gynnwys Graddau Cyn Cofrestru, Graddau Sylfaen, a Phrentisiaethau Gradd). Dyma'r Cytundeb Atodol y cyfeirir ato yn yr Amodau Cofrestru a'r Amodau Cofrestru (Prentisiaid), a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Amodau hynny a'r rheolau, y rheoliadau a'r polisïau a nodir ynddynt. Drwy gofrestru ar gyfer cymhwyster Nyrsio, rydych yn cytuno ar y telerau hyn. Mae rhestr o Ddiffiniadau wedi'i chynnwys i esbonio unrhyw dermau a all fod yn anghyfarwydd i chi.

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn weithredol o'r dyddiad y gwnaethoch gofrestru ar gyfer eich cymhwyster Nyrsio a bydd yn parhau i fod yn berthnasol nes y byddwch wedi cwblhau eich cymhwyster, neu nes y bydd eich cofrestriad wedi dod i ben neu wedi'i ganslo, pa un bynnag fydd yn digwydd gyntaf. I gael canllawiau penodol ar sut y gall y cytundeb hwn fod yn berthnasol i'ch amgylchiadau personol, cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr, neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid, neu gyswllt cyfatebol y Wlad.

Drwy'r ddogfen hon, mae ‘ni’ neu ‘ein’ yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored. Mae ‘chi’ yn cyfeirio atoch chi fel y Myfyriwr neu'r Prentis.

# Cwmpas

## Yr hyn y mae'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Mae'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol i Fyfyrwyr neu Brentisiaid sydd wedi cael eu derbyn ar raglen Nyrsio Cyn Cofrestru'r Brifysgol Agored.

## Yr hyn nad yw'r ddogfen hon yn ei gwmpasu

Nid yw'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol i Fyfyrwyr neu Brentisiaid nad ydynt wedi cael eu derbyn eto ar raglen Nyrsio Cyn Cofrestru Y Brifysgol Agored, myfyrwyr sy'n astudio modiwlau a allai gyfrannu at gymhwyster y tu allan i'r rhaglen Nyrsio, na Myfyrwyr neu Brentisiaid sy'n astudio cymwysterau neu raglenni dysgu seiliedig ar waith eraill, fel Gwaith Cymdeithasol.

Nid yw'n berthnasol i Fyfyrwyr na Phrentisiaid sy'n astudio fersiynau o fodiwlau a/neu gymwysterau nad ydynt yn rhai Nyrsio.

### Prentisiaethau

Os ydych yn astudio prentisiaeth, nid yw rhai rhannau o'r Cytundeb Atodol hwn yn berthnasol i chi. Caiff y rhain eu hegluro ym mhob adran berthnasol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid.

# Cymorth a Gwybodaeth

## Sut i gysylltu â ni

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am gynnwys y ddogfen hon a sut i'w ddehongli, ewch i'r adran Cysylltu â Ni. I weld ein manylion cyswllt, ewch i'r adran Swyddfeydd Y Brifysgol Agored.

Gall Dysgwyr Cymraeg siarad â chynghorydd cymorth myfyrwyr yn Gymraeg ar +44 (0) 29 2047 1170.

### Eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu Dîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid

Mae rhif ffôn a chyfeiriad e-bost eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid i'w gweld ar StudentHome neu adran Your contacts o'r Ganolfan Gymorth.

### Eich Swyddfa Genedlaethol

Er mwyn cadarnhau'r manylion cyswllt diweddaraf, gweler Swyddfeydd Y Brifysgol Agored.

Os ydych yn Ddysgwr yng Nghymru, yr Alban neu Iwerddon, cysylltwch â'ch Swyddfa Genedlaethol:

#### Y Brifysgol Agored yn Iwerddon

110 Victoria Street
Belfast
BT1 3GN

Ffôn +44 (0)28 9032 3718

#### Y Brifysgol Agored yn yr Alban

10 Drumsheugh Gardens
Edinburgh
EH3 7QJ

Ffôn +44 0 131 226

#### Y Brifysgol Agored yng Nghymru

18 Stryd y Tollty
Caerdydd
CF10 1AP

Ffôn +44 (0)29 2047 1170

Rydym yn croesawu cyswllt yn Gymraeg.

## Bwlio, Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol

Rydym yn ymroddedig i feithrin amgylchedd croesawgar a chynhwysol i bawb; oherwydd hyn, nid ydym yn goddef bwlio, aflonyddu na chamymddwyn rhywiol. Rydym yn ymrwymedig i ymchwilio i faterion sy'n peri pryder a byddwn yn cymryd camau disgyblu priodol pan fydd angen i sicrhau bod ein myfyrwyr a'n staff yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu parchu wrth gydweithio â'i gilydd.

Mae gwybodaeth, dulliau cymorth ac adnoddau ar gyfer myfyrwyr a staff ar gael drwy'r dudalen we Bullying, harassment & sexual misconduct: it's never OK. Drwy'r dudalen hon gallwch hefyd roi gwybod am unrhyw bryderon am fwlio, aflonyddu a chamymddwyn rhywiol rydych wedi'u profi neu eu gweld.

## Rhoi gwybod am Fwlio ac Aflonyddu

Mae'r Brifysgol Agored yn ymrwymedig i greu amgylchedd amrywiol a chynhwysol lle mae pawb yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu trin ag urddas a pharch. Ni chaiff gwahaniaethu anghyfreithlon o unrhyw fath ei oddef yn Y Brifysgol Agored. Rydym yn annog myfyrwyr, dysgwyr, ymwelwyr a staff i roi gwybod am achosion o ymosod, bwlio, aflonyddu, trosedd casineb neu aflonyddu rhywiol drwy Rhoi Gwybod a Chymorth. Mae'r llwyfan hwn hefyd yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei wneud os bydd yr achosion hyn yn digwydd i chi neu i rywun rydych yn ei adnabod, a ble y gallwch gael cymorth.

# Prif delerau'r Cytundeb Atodol

## 1 Safonau Proffesiynol a Gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer

1.1 Er mwyn astudio cymhwyster Nyrsio gyda ni, mae gofynion ychwanegol i ddatgelu cyfyngiadau ac amodau cyfreithiol yn unol â Chanllawiau ar Iechyd a Chymeriad (Saesneg un unig) y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Bydd yn ofynnol i chi gael cliriad manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (yng Nghymru a Lloegr), gwiriad gan Disclosure Scotland - Protecting Vulnerable Groups (PVG) (yn yr Alban) neu wiriad gan Access NI (yng Ngogledd Iwerddon). Bydd yn ofynnol i chi gwblhau hunanddatganiad (a all gynnwys euogfarnau wedi'u disbyddu perthnasol). Dim ond os bydd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth wedi nodi hynny'n benodol y bydd yn ofynnol i chi gwblhau hunanddatganiad o euogfarnau wedi'u disbyddu

perthnasol. Byddwn yn rhoi gwybod i chi am y wybodaeth y bydd yn ofynnol i chi ei datgelu os yn briodol, cyn cofrestru ar eich cymhwyster.

Mae'n ofynnol i chi gwblhau'r broses o ddatgan cofnod troseddol a chael ystyriaeth a chliriad gan Y Brifysgol Agored cyn y caniateir i chi gofrestru a chyflawni unrhyw elfennau ymarferol o'ch rhaglen broffesiynol. Gallai methiant i gydymffurfio â'r gofyniad gorfodol hwn olygu y byddech yn cael eich tynnu oddi ar y rhaglen. I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid (neu gyswllt cyfatebol y Wlad).

1.2 Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn, rydych yn cydnabod yn benodol eich bod yn deall y safonau proffesiynol a bennwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y Cod sy'n berthnasol i Fyfyrwyr Nyrsio, ac yn cytuno i ymrwymo iddynt. Mae hyn yn golygu:

a) Os mynegir pryder nad ydych yn cyflawni nac yn cynnal y safonau hyn ar lefel sy'n briodol ar gyfer cam eich astudiaethau ar gyfer y cymhwyster Nyrsio, efallai y cewch eich cyfeirio o dan ein Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

   Gall hyn arwain at gymryd y camau canlynol o ran eich astudiaethau tuag at un o'r cymwysterau yn y rhaglen Nyrsio:

   - gosod amodau arnoch, cyn y gallwch barhau i astudio ar gyfer y cymhwyster (ac, felly, gosod amodau ar eich cyflogaeth, os ydych yn Brentis Nyrsio).
   - eich atal rhag astudio ar gyfer y cymhwyster.
   - terfynu cofrestriad tuag at y cymhwyster.
   - peidio â dyfarnu'r cymhwyster.

b) Rydych yn cytuno i roi gwybod i ni cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl am unrhyw fater a all beri pryder ynglŷn â'ch gallu i gyrraedd safonau proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Dylech gysylltu â'ch Tiwtor Ymarfer neu lle y gall hyn achosi oedi, â'r Tiwtor Staff yn eich ardal. Bydd y Cyswllt Cyflogi neu'r Cyswllt Cyflogi Llwybr Annibynnol yn eich sefydliad, eich

Tîm Cymorth Myfyrwyr (Myfyrwyr ar Raglenni Nyrsio) neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid (Prentisiaid ar Raglenni Nyrsio) yn gallu darparu manylion cyswllt fel y bo angen.

1.3 Os ydych yn cofrestru ar gyfer cymhwyster neu fodiwl Nyrsio fel rhan o raglen brentisiaeth, bydd angen i'ch cyflogwr gwblhau a chyflwyno Ffurflen Addasu Prentisiaeth i ni. Rhaid i gynnwys y Ffurflen gael ei chymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth; ni allwn gwblhau eich cofrestriad ar y Brentisiaeth i fod yn Nyrs neu'n Gydymaith Nyrsio nes bydd y gymeradwyaeth hon wedi'i rhoi.

1.4 Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer dyfarniad cymhwyster Nyrsio, mae'n rhaid eich bod, yn ein barn ni, yn bodloni'r gofynion academaidd a'r gofynion o ran safonau proffesiynol ar gyfer eich cymhwyster yn foddhaol. Mae'n rhaid i chi hefyd gwblhau'r holl fodiwlau gofynnol yn llwyddiannus fel y'u nodir yn y Rheoliadau Cymhwyster sy'n benodol i'ch cymhwyster er mwyn cael y dyfarniad.

1.5 Er mwyn cael cymhwyster Prentisiaeth Nyrsio, mae'n rhaid i chi hefyd fodloni'r gofynion a amlinellir yn y Cynllun Hyfforddi a roddir i chi pan fyddwch yn cofrestru. Mae hyn yn cynnwys cyflawni unrhyw ofynion oriau y tu allan i'r swydd ac amserlenni penodol ar gyfer cwblhau eich rhaglen.

1.6 Os na fyddwch wedi cyrraedd y safonau proffesiynol gofynnol oherwydd materion a gododd cyn i chi gofrestru â'r Rheoleiddiwr, gall datganiad i'r Rheoleiddiwr am eich iechyd a'ch cymeriad da gael ei gadw'n ôl ar argymhelliad panel Addasrwydd i Ymarfer. Gall hyn ddigwydd hyd yn oed os byddwch wedi ennill digon o gredyd modiwl i fodloni gofynion academaidd ac ymarfer dysgu'r cymhwyster Nyrsio. Byddai hyn yn golygu na allech gofrestru, ac felly ymarfer, fel nyrs er bod y cymhwyster wedi'i ddyfarnu.

1.7 Gall y rhaglen Nyrsio gynnwys y gofyniad i chi ymgymryd ag ymgynghoriadau cleifion o bell. Mewn achosion o'r fath, byddai ein gweithdrefnau Addasrwydd i Ymarfer yn berthnasol, a byddai'r gweithdrefnau hyn yn rheoli unrhyw achos o dorri'r safonau proffesiynol perthnasol.

1.8 Os bydd eich cymhwyster Nyrsio wedi'i ddyfarnu, a daw unrhyw faterion a ddigwyddodd cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu i'r amlwg wedi hynny a ddylai,

ym marn panel Addasrwydd i Ymarfer, fod wedi cael eu datgan ac a fyddai wedi arwain at beidio â dyfarnu'r cymhwyster Nyrsio, yna caiff y mater ei gyfeirio at Bwyllgor Disgyblu Canolog Y Brifysgol Agored. Mae gan y Pwyllgor Disgyblu Canolog y pŵer i dynnu'r cymhwyster Nyrsio yn ôl.

1.9 Os na chaiff y cymhwyster Nyrsio ei ddyfarnu yn dilyn penderfyniad gan banel Addasrwydd i Ymarfer neu'r Pwyllgor Disgyblu Canolog, mae'n bosibl y cewch gynnig un o gymwysterau eraill Y Brifysgol Agored os byddwch wedi bodloni'r gofynion o ran credydau ar ei gyfer, ar yr amod nad ydynt yn destun cosbau disgyblu eraill.

1.10 Ni fydd cael cynnig lle ar y cymhwyster gennym ni na chwblhau'r cymhwyster yn llwyddiannus yn sicrhau y cewch eich cynnwys ar gofrestr broffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn cadw'r hawl i benderfynu a gewch ymuno â'r gofrestr broffesiynol ar y pwynt cofrestru (gweler y Canllawiau ar Iechyd a Chymeriad, Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth 2019). Cyfeiriwch at ganllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â'r gofynion ar gyfer cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

1.11 Bydd angen i chi fod wedi bodloni'r holl ofynion addysgol a phriodweddau personol a nodwyd i gael mynediad i'ch dewis gymhwyster. Rhaid i holl ofynion y rhaglen gael eu bodloni cyn i'r cymhwyster gael ei ddyfarnu.

1.12 Bydd angen i chi gael Cliriad Iechyd Galwedigaethol boddhaol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion iechyd ar gyfer eich galwedigaeth: gall hyn gynnwys cael imiwneiddiadau, er enghraifft brechlynnau Hepatitis B neu COVID-19.

1.13 Bydd eich cofrestriad ar y cymhwyster Nyrsio yn amodol nes y byddwch wedi ein bodloni ni eich bod wedi bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol gofynnol ar gyfer y Cymhwyster Nyrsio. Mae hyn yn cynnwys darparu'r holl dystiolaeth ddogfennol angenrheidiol, lle y bo'n berthnasol.

1.14 Ar gyfer myfyrwyr ar y Llwybr Annibynnol, rhaid i chi lofnodi Contract Anrhydeddus gyda'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol cyn cofrestru ar gyfer y Cymhwyster Nyrsio.

1.15 Byddwn yn terfynu eich cofrestriad ar y cymhwyster Nyrsio os na fyddwn yn fodlon eich bod wedi bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol gofynnol ar gyfer y Cymhwyster Nyrsio, cyn dyddiad dechrau eich modiwl. Mae hyn yn cynnwys cael gwiriad cofnodion troseddol boddhaol yn unol â Chymal 1.1 a Chliriad Iechyd Galwedigaethol.

## 2 Cyfnodau Ymarfer Dysgu

2.1 Pan fyddwch yn cofrestru ar gyfer cymhwyster Nyrsio gyda ni, rydych yn cytuno i wneud y canlynol:

a) Cydweithredu â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu Ddarparwr Lleoliad er mwyn hwyluso eich cyfranogiad mewn Cyfnodau Ymarfer Dysgu priodol i'ch galluogi i gyflawni deilliannau dysgu'r Radd Nyrsio.

b) Cydweithredu â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu Ddarparwr Lleoliad a bodloni unrhyw ofynion rhesymol i gynnal enw da'r Darparwr Lleoliad a'r Brifysgol Agored, a chydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol a'u safonau gwasanaeth mewn cysylltiad â'ch cyfranogiad yn y Cyfleoedd Ymarfer Dysgu a gynigir.

c) Ar gyfer myfyrwyr a phrentisiaid a gaiff eu cyflogi fel rhan o'u rhaglen, (h.y. nad ydynt yn astudio'r Llwybr Annibynnol), cydymffurfio â pholisïau ac arferion cyflogaeth y Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu a/neu Ddarparwr Lleoliad, a chymryd pob cam rhesymol i gynnal eich cyflogaeth ac unrhyw Gyfleoedd Ymarfer Dysgu a gynigir, er mwyn cwblhau'r cymhwyster Nyrsio. Noder: mae cyflogaeth barhaus yn ofynnol er mwyn parhau i astudio'r cymhwyster Nyrsio drwy'r llwybr rhaglen. **Nid yw Cymal 2.1c yn berthnasol i fyfyrwyr ar y Llwybr Annibynnol, a ddylai gyfeirio at Gymal 2.1d.**

d) Ar gyfer y Llwybr Annibynnol, rhaid i chi gydymffurfio â pholisïau ac arferion y Cyflogwr Llwybr Annibynnol; rhaid i chi hefyd gydymffurfio â pholisïau ac arferion y darparwr lleoliad (os yw'n wahanol i'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol). Rhaid i chi hefyd gymryd pob cam rhesymol i gynnal eich Contract Anrhydeddus ac unrhyw Gyfleoedd Ymarfer Dysgu a ddarperir er

mwyn cwblhau'r cymhwyster Nyrsio. Mae lleoliad parhaus yn ofynnol er mwyn parhau i astudio'r cymhwyster Nyrsio ar y Llwybr Annibynnol.

2.2 Wrth gyflawni ymarfer dysgu, mae'n ofynnol i chi gydweithredu â'r Asesydd Ymarfer/Goruchwyliwr Ymarfer a neilltuwyd i chi gan eich Darparwr Lleoliad. Bydd eich Asesydd Ymarfer/ Goruchwyliwr Ymarfer yn gwneud y canlynol:

a) cynnal arsylwadau ac ymarfer wedi'i oruchwylio, gan gynnig adborth rheolaidd i chi drwy gydol y Cyfnod Ymarfer Dysgu;

b) cyflawni unrhyw gyfrifoldebau asesu sy'n ofynnol gan y Rhaglen Nyrsio Cyn Cofrestru; ac yn

c) cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio, monitro ac adolygu gyda chi a'ch Tiwtor Ymarfer.

2.3 Os byddwch yn torri Adrannau 2.1 a 2.2, ac nad yw'n rhesymol ymarferol i chi gwblhau Cyfnod Ymarfer Dysgu, yna nid yw'n ofynnol i'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Cyflogwr Llwybr Annibynnol, Darparwr Lleoliad na'r Brifysgol Agored roi cyfle pellach i chi fodloni'r gofynion ymarfer dysgu ar gyfer y modiwl hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, ystyrir eich bod wedi methu'r modiwl a gall eich astudiaethau gael eu hatal yn unol â'r Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

## 2.4 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o Raglen Brentisiaeth na Llwybr Annibynnol)

2.4.1 Os na fydd y Noddwr Dysgu yn rhoi digon o gyfleoedd i chi gwblhau Cyfnodau Ymarfer Dysgu fel y'u nodir yn y deunyddiau modiwl, lle y bo'n bosibl, byddwn yn ymestyn eich cyfnod astudio er mwyn galluogi'r Noddwr Dysgu i gynnig digon o gyfleoedd ymarfer dysgu. Y Noddwr Dysgu neu, lle y bo'n berthnasol, y Noddwr Ariannol, fydd yn atebol am unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt o ganlyniad i'r fath estyniad, neu am roi cyngor a chymorth i chi ddod o hyd i Noddwr Dysgu a/neu Gyfnodau Ymarfer Dysgu amgen.

## 2.5 Dysgwyr sy'n dilyn Rhaglen Brentisiaeth

2.5.1 Fel Prentis, mae'n ofynnol i'ch cyflogwr roi oriau 'y tu allan i'r swydd' wedi'u cynllunio i chi. Dylai'r rhain fod yn oriau â thâl er mwyn astudio.

Cytunwyd ar gyfnod eich prentisiaeth a'r oriau wedi'u cynllunio ar ddechrau'r rhaglen, ac maent yn cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu.

### 2.6 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio ar y Llwybr Annibynnol

2.6.1 Os na fydd y Cyflogwr Llwybr Annibynnol yn rhoi digon o gyfleoedd i chi gwblhau Cyfnodau Ymarfer Dysgu fel y'u nodir yn y deunyddiau modiwl, lle y bo'n bosibl, byddwn yn ymestyn eich cyfnod astudio er mwyn galluogi'r Cyflogwr Llwybr Annibynnol i gynnig digon o gyfleoedd ymarfer dysgu. Byddwn yn rhoi cyngor a chymorth i chi ddod o hyd i Gyflogwr Llwybr Annibynnol a/neu Gyfnodau Ymarfer Dysgu amgen lle y bo angen.

## 3 Terfynu Cyflogaeth a/neu Nawdd

### 3.1 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o Raglen Brentisiaeth na Llwybr Annibynnol)

3.1.1 Bydd rhwymedigaethau eich Noddwr Dysgu, fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn, yn dod i ben os byddwch yn gadael eich cyflogaeth. Er mwyn parhau i fod wedi'ch cofrestru ar gyfer y cymhwyster Nyrsio, byddwch yn gyfrifol am ddod o hyd i Noddwr Dysgu amgen addas er mwyn cwblhau unrhyw ymarfer dysgu pellach sydd ei angen a chwblhau'r cymhwyster Nyrsio o fewn y terfyn amser a bennwyd.

3.1.2 Os ydych yn cael cymorth ariannol tuag at gost eich ffioedd dysgu ac y caiff y cymorth hwn ei dynnu'n ôl am unrhyw reswm, rhaid i chi sicrhau eich bod yn parhau i fodloni eich rhwymedigaethau o ran ffioedd. Gall hyn gynnwys cael nawdd ariannol newydd neu ddefnyddio benthyciadau myfyriwr. Os na fyddwch yn dod o hyd i ffordd o dalu eich ffioedd dysgu, ni chewch ddilyn y rhaglen mwyach.

3.1.3 Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newid posibl i'ch cyflogaeth a all effeithio ar eich perthynas barhaus â'ch Noddwr Dysgu a/neu eich Noddwr Ariannol fel bod modd ystyried trefniadau amgen.

3.1.4 Os bydd eich Noddwr Dysgu a'ch Noddwr Ariannol yn sefydliadau gwahanol a'ch bod yn gadael eich cyflogaeth, yna, gyda chytundeb eich Noddwr Ariannol, cewch chwilio am gyflogaeth addas gyda chyflogwr amgen a fydd yn cytuno i weithredu fel eich Noddwr Dysgu.

Bydd hyn yn eich galluogi i barhau â'ch cymhwyster Nyrsio ar yr amod bod y cyflogwr newydd yn gallu darparu'r profiadau ymarfer dysgu ac Aseswyr Ymarfer/Goruchwylwyr Ymarfer priodol i fodloni gofynion y cymhwyster. Rhaid i chi gysylltu â'ch Tîm Cymorth i Fyfyrwyr i drafod addasrwydd y newid arfaethedig hwn.

3.1.5 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Noddwr Dysgu ei derfynu, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen y rhaglen, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl Gyfnodau Ymarfer Dysgu angenrheidiol.

### 3.2 Dysgwyr sy'n dilyn Rhaglen Brentisiaeth

3.2.1 Os caiff eich cyflogaeth ei therfynu am unrhyw reswm yn ystod eich prentisiaeth, cysylltwch â'ch Tiwtor Ymarfer neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid cyn gynted â phosibl oherwydd bydd hyn yn effeithio ar eich gallu i barhau â'ch rhaglen ddysgu.

### 3.3 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio ar y Llwybr Annibynnol

3.3.1 Bydd cyfrifoldebau eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol, fel y'u nodir yn y Cytundeb hwn, yn dod i ben os byddwch yn gadael eich lleoliad neu os bydd eich Contract Anrhydeddus yn cael ei derfynu. Bydd y Cyflogwr Llwybr Annibynnol yn ein hysbysu ni os caiff eich Cytundeb er Anrhydedd ei derfynu. Er mwyn parhau i fod wedi'ch cofrestru ar gyfer y cymhwyster Nyrsio, byddwch yn gyfrifol am ddod o hyd i Gyflogwr Llwybr Annibynnol amgen addas er mwyn cwblhau unrhyw ymarfer dysgu pellach sydd ei angen a chwblhau'r cymhwyster Nyrsio o fewn y terfyn amser a bennwyd. Nodwch, os bydd eich lleoliad neu eich Contract Anrhydeddus yn dod i ben oherwydd rhesymau fel pryderon ynghylch addasrwydd i ymarfer (gweler paragraff 2.3 uchod), efallai na fydd yn bosibl nac yn briodol i chi barhau i fod wedi cofrestru ar y cymhwyster.

3.3.2 Os ydych yn cael cymorth ariannol tuag at gost eich ffioedd dysgu ac y caiff y cymorth hwn ei dynnu'n ôl am unrhyw reswm, rhaid i chi sicrhau eich bod yn parhau i fodloni eich rhwymedigaethau o ran ffioedd. Gall hyn gynnwys cael

nawdd ariannol newydd neu ddefnyddio benthyciadau myfyriwr. Os na fyddwch yn dod o hyd i ffordd o dalu eich ffioedd dysgu, ni chewch ddilyn y rhaglen mwyach.

3.3.3 Rhaid i chi roi gwybod i ni cyn gynted â phosibl am unrhyw newid posibl i'ch statws lleoliad a all effeithio ar eich perthynas barhaus â'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol fel bod modd ystyried trefniadau amgen.

3.3.4 Os caiff cytundeb cydweithredu'r Brifysgol Agored â'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol ei derfynu, byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch galluogi i orffen y rhaglen, gan gynnwys cwblhau pob modiwl angenrheidiol a chyflawni'r holl Gyfnodau Ymarfer Dysgu angenrheidiol.

## 4 Terfynu Cofrestriad

4.1 Gallwn ganslo eich cofrestriad ar gyfer y cymhwyster Nyrsio o dan yr amgylchiadau a nodir yn yr Amodau Cofrestru neu'r Amodau Cofrestru (Prentisiaid) fel y bo'n briodol i'ch cymhwyster. Gallwn hefyd ganslo eich cofrestriad os na fyddwch yn gwneud y canlynol:

a) aros mewn cyflogaeth (ar gyfer Prentisiaid a Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio nad ydynt ar y Llwybr Annibynnol).

b) cyflawni ymarfer dysgu gyda'ch Noddwr Dysgu neu Ddarparwr Lleoliad y cytunwyd arno. Mae hyn yn cynnwys yr hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n ofynnol gan eich cyflogwr neu noddwr er mwyn i chi fod ar leoliad gyda nhw.

c) cynnal safonau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth o ran eich iechyd, eich cymhwysedd a'ch safonau ymddygiad.

d) ein hargyhoeddi ni eich bod wedi bodloni'r holl amodau mynediad Academaidd, Galwedigaethol a Phroffesiynol gofynnol ar gyfer y Cymhwyster Nyrsio, cyn i'ch modiwl ddechrau.

4.2 Os byddwch yn methu modiwl (gan gynnwys methu unrhyw arholiad ailsefyll neu ailgyflwyniad), mater i'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Ariannol (lle y bo'n berthnasol), Cyflogwr Llwybr Annibynnol (Llwybr Annibynnol) a/neu Noddwr Dysgu fydd penderfynu a fydd yn parhau i'ch cefnogi ar y rhaglen Nyrsio.

Os ydych yn Brentis, dylech gysylltu â'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid neu gyswllt cyfatebol y Wlad am ragor o wybodaeth o ran a fyddwch yn cael eich cefnogi i barhau.

## 4.3 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o Raglen Brentisiaeth na Llwybr Annibynnol)

4.3.1 Os bydd eich Noddwr Ariannol neu'ch Noddwr Dysgu yn tynnu eich cymorth yn ôl, byddwn ni yn canslo eich cofrestriad ar gyfer y cymhwyster Nyrsio. Bydd eich cofrestriad yn ailddechrau os byddwch, cyn dyddiad dechrau cyflwyniad nesaf y modiwl, wedi dod o hyd i Noddwr Ariannol (neu, yn Lloegr yn unig, wedi gwneud trefniadau amgen addas i dalu ffioedd dysgu) a/neu Noddwr Dysgu amgen.

4.3.2 Os caiff cymorth ei dynnu'n ôl, gallwch astudio modiwlau academaidd (y rhai hynny nad oes angen ymarfer dysgu ar eu cyfer) nad ydynt yn benodol i'r rhaglen Nyrsio ar eich cam astudio presennol, ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl hwnnw. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddod o hyd i Noddwr Ariannol neu Ddysgu newydd i barhau â'r rhaglen Nyrsio ar ddyddiad dechrau'r modiwl nesaf.

4.3.3 Os caiff eich contract â'ch Noddwr Dysgu ei derfynu, rhaid i chi ddod o hyd i Noddwr Dysgu newydd er mwyn cwblhau modiwlau sy'n cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu gofynnol ar gyfer cam y Radd Nyrsio rydych yn ei astudio. Os na fyddwch yn gwneud hyn cyn dyddiad dechrau cyflwyno'r modiwl nesaf, bydd eich cofrestriad ar y Radd Nyrsio yn dod i ben. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallwch gadw eich credyd a dychwelyd i astudio ar ddyddiad hwyrach os byddwch yn gymwys i wneud hynny, yn ddarostyngedig i'r rheolau a'r rheoliadau sydd ar waith pan fyddwch yn cofrestru wedyn.

## 4.4 Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio ar y Llwybr Annibynnol

4.4.1 Os bydd eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol yn tynnu eich cymorth yn ôl neu os bydd eich Contract Anrhydeddus yn cael ei derfynu, byddwn yn canslo eich cofrestriad ar gyfer y cymhwyster Nyrsio. Bydd eich cofrestriad yn ailddechrau os byddwch, cyn dyddiad dechrau cyflwyniad nesaf y modiwl, wedi dod o hyd i Gyflogwr Llwybr Annibynnol amgen.

4.4.2 Os caiff cymorth ei dynnu'n ôl, gallwch astudio modiwlau academaidd (y rhai hynny nad oes angen ymarfer dysgu ar eu cyfer) nad ydynt yn benodol i'r rhaglen Nyrsio ar eich cam astudio presennol, ar yr amod eich bod yn gallu cyflawni deilliannau dysgu'r modiwl hwnnw. Fodd bynnag, bydd angen i chi ddod o hyd i Gyflogwr Llwybr Annibynnol arall i barhau â'r rhaglen Nyrsio ar ddyddiad dechrau'r modiwl nesaf.

4.4.3 Os caiff eich Contract Anrhydeddus â'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol ei derfynu, rhaid i chi ddod o hyd i Gyflogwr Llwybr Annibynnol arall er mwyn cwblhau modiwlau sy'n cynnwys y Cyfnodau Ymarfer Dysgu gofynnol ar gyfer cam y Radd Nyrsio rydych yn ei astudio. Os na fyddwch yn gwneud hyn cyn dyddiad dechrau cyflwyno'r modiwl nesaf, bydd eich cofrestriad ar y Radd Nyrsio yn dod i ben. Mewn amgylchiadau o'r fath, gallwch gadw eich credyd a dychwelyd i astudio'n hwyrach os byddwch yn gymwys i wneud hynny, yn ddarostyngedig i'r rheolau a'r rheoliadau sydd ar waith pan fyddwch yn cofrestru wedyn.

## 5 Eich Astudiaethau

5.1 Rhaid i chi gwblhau eich cymhwyster Nyrsio o fewn y cyfnod penodedig a nodir yn y Rheoliadau Cymhwyster ac a ddangosir ar StudentHome) oni chewch estyniad yn ôl disgresiwn y Bwrdd Astudiaethau Iechyd, Llesiant a Gofal Cymdeithasol. Os ydych yn astudio prentisiaeth, rhaid i unrhyw gais am estyniad gael ei wneud gyda chytundeb eich Cyflogwr a'r Brifysgol Agored, a rhaid iddo gydymffurfio â'r rheolau a nodwyd gan eich Darparwr Cyllid a'r rheoleiddiwr.

Gellir ystyried ceisiadau am estyniad os nad ydych wedi gallu astudio am resymau y tu hwnt i'ch rheolaeth (gweler Atodiad A). Mae amgylchiadau eraill lle y gellir rhoi estyniad yn cynnwys y canlynol:

a) os byddwch wedi cael eich gwahardd dros dro o dan y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer ac wedi cael eich derbyn yn ôl wedi hynny.

b) os byddwch yn colli eich swydd ac nad chi oedd ar fai, ac na allwch ddod o hyd i swydd arall ar unwaith (Myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer cymhwyster Nyrsio y tu allan i brentisiaeth yn unig).

c) Os na fydd eich lleoliad ar gael neu os caiff ei ddileu (Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio ar y Llwybr Annibynnol yn unig).

5.2 Os, am unrhyw reswm, na allwch gwblhau'r Cyfnodau Ymarfer Dysgu ar gyfer modiwl, pan fyddwch yn dychwelyd i astudio, bydd yn ofynnol i chi gwblhau'r Cyfnod Ymarfer Dysgu olaf ar gyfer Cam y cymhwyster Nyrsio roeddech wedi'i gyrraedd cyn y tarfu ar eich astudiaethau, o leiaf. Gallwch ofyn am i'r oriau ymarfer rydych wedi'u cwblhau yn ystod y modiwl gael eu cario ymlaen o'r Cyfnodau Ymarfer Dysgu hynny rydych wedi'u cwblhau'n llawn.

5.3 Os byddwch yn astudio cymhwyster Nyrsio y tu allan i Raglen Brentisiaeth, rhaid i chi astudio bob yn ail flwyddyn o leiaf, neu gymryd seibiant astudio wedi'i gymeradwyo fel y nodir ym Mholisi Newid eich Cynlluniau Astudio, neu bydd eich cofrestriad ar y cymhwyster Nyrsio yn dod i ben.

5.4 Cewch ddechrau modiwl ar gam nesaf y cymhwyster Nyrsio cyn i chi gwblhau modiwl a chael y canlyniadau ar gam cynharach. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae'n rhaid eich bod wedi cwblhau'r modiwl cynharach a chael y canlyniadau o fewn 12 wythnos i ddechrau'r modiwl ar y cam nesaf. Os na fydd hyn yn bosibl neu os na fyddwch yn llwyddo, ni fyddwch yn gallu dechrau na pharhau wedi'ch cofrestru ar y modiwl ar y cam nesaf. Bydd eich Tîm Cymorth Myfyrwyr neu'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn trafod unrhyw oblygiadau ariannol â chi.

## 6 Rhannu gwybodaeth a Diogelu Data

6.1 Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr i gael gwybodaeth lawn am y ffordd rydym yn c asglu ac yn defnyddio eich data. Rhai pwyntiau ychwanegol sy'n ymwneud â'r Cytundeb Atodol hwn. Drwy ymrwymo i'r Cytundeb Atodol hwn:

a) Fel rhan o'r broses o wneud cais a chofrestru, gallwn ddilysu gwybodaeth a roddir gan ddefnyddio systemau allanol priodol (fel gwirio eich cofnod addysg ar System Cofnodi Dysgu y Llywodraeth a reolir gan yr Adran Addysg).

b) Gallwn rannu gwybodaeth am eich perfformiad academaidd a'r safonau proffesiynol sy'n ymwneud â'ch astudiaeth ar gyfer cymhwyster Nyrsio â'ch Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Noddwr Ariannol, Cyflogwr Llwybr

Annibynnol ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad, (neu bydd yn rhannu ar gyfer Prentisiaid). Gall gwybodaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad (fel y'i diffinnir yn Adran 4 o'r weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer) gael ei rhannu lle gallant effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol neu'ch addasrwydd i ymarfer a'ch cyfranogiad parhaus mewn unrhyw amgylchedd ymarfer dysgu. Byddwn yn rhoi gwybod i'ch cyflogwr neu Gyflogwr Llwybr Annibynnol ar Gam 2 y Polisi Addasrwydd i Astudio os bydd hyn yn berthnasol i chi. Cyfeiriwch at y Polisi Addasrwydd i Astudio am ragor o fanylion.

c) Mae gennym ddyletswydd i ystyried unrhyw bryder am eich ymddygiad (fel y'i diffinnir yn Adran 4 o'r weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer) a rennir â ni (gan gynnwys gan eich cyflogwr, aelod o staff Y Brifysgol Agored, un o fyfyrwyr Y Brifysgol Agored neu aelod o'r cyhoedd) a godir drwy ein Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Gall hyn arwain at osod amodau ar eich cofrestriad parhaus ar y rhaglen, eich gwahardd dros dro neu eich dadgofrestru o'r rhaglen, neu eich diarddel o'r Brifysgol Agored.

d) Gall gwybodaeth am eich iechyd ac unrhyw anabledd rydych wedi dweud wrthym amdano gael ei rhannu â Darparwyr Lleoliad neu eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol yn unol â rhwymedigaethau cyfreithiol i ddarparu addasiadau rhesymol i gydymffurfio â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (yng Nghymru, Lloegr a'r Alban), a Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2004 ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ar gyfer Gogledd Iwerddon; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall. Hefyd, gall data gael eu rhannu fel na fyddwch chi nac aelodau o'r cyhoedd yn wynebu risg wrth i chi gyflawni lleoliad.

e) Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth a rennir yn ddiogel ac yn prosesu data yn unol â'r Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr. Bydd eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Dysgu, Noddwr Ariannol, Cyflogwr Llwybr Annibynnol ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad yn storio ac yn prosesu gwybodaeth yn unol â'u Hysbysiadau Preifatrwydd.

f) Gall eich Cyflogwr (Prentisiaid), Noddwr Ariannol (lle y bo'n berthnasol), Noddwr Dysgu, Cyflogwr Llwybr Annibynnol neu unrhyw Ddarparwr Lleoliad roi gwybod i ni am unrhyw fater sy'n codi pryderon am eich gallu i gyrraedd safonau proffesiynol y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

g) Gall Y Brifysgol Agored, eich Cyflogwr (Prentisiaid), eich Noddwr Dysgu, eich Noddwr Ariannol (lle y bo'n berthnasol), eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol ac unrhyw Ddarparwr Lleoliad rannu gwybodaeth a thystiolaeth am faterion yn ymwneud â'ch ymddygiad a allai effeithio ar eich addasrwydd proffesiynol, eich addasrwydd i ymarfer, eich cyflogaeth barhaus neu'ch cyfranogiad mewn Cyfnod Ymarfer Dysgu. Mae gan eich Noddwr Dysgu, fel eich cyflogwr, yr hawl i ddelio â materion sy'n ymwneud â chyflogaeth o dan ei weithdrefnau ei hun, yn annibynnol ar ein Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer. Fodd bynnag, gall y weithdrefn hon hefyd gael ei defnyddio mewn perthynas â'r materion hynny. Mae gan eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol yr hawl i ddelio ag unrhyw faterion sy'n ymwneud â'ch Contract Anrhydeddus o dan ei weithdrefnau ei hun, yn annibynnol ar ein gweithdrefnau addasrwydd i ymarfer. Fodd bynnag, gall y rhain hefyd gael eu defnyddio mewn perthynas â'r materion hynny.

h) Hefyd, mae gennym ni rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu gwybodaeth benodol i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

i) Byddwn, lle y bo'n ofynnol, yn rhoi gwybod i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth am unrhyw fater sy'n ymwneud ag addasrwydd neu addasrwydd i ymarfer yr ymchwilir iddo, yn ogystal â chanlyniad unrhyw ymchwiliad. Fodd bynnag, ni fyddwn yn rhannu gwybodaeth am ymchwiliad i Addasrwydd i Ymarfer â Noddwr Ariannol (lle y bo'n berthnasol), Noddwr Dysgu, Cyflogwr Llwybr Annibynnol na Darparwr Lleoliad os ystyrir nad yw'r mater yr ymchwilir iddo yn peri risg uniongyrchol o dan yr amgylchiadau, na risg i ddefnyddwyr gwasanaethau neu gleifion.

6.2 Mae'n ofynnol cofrestru â'r Awdurdod Rheoleiddio cyn ymarfer fel Nyrs neu Gydymaith Nyrsio, y byddwch yn gymwys i wneud cais amdano ar ôl cwblhau eich cymhwyster i fod yn Nyrs neu'n Gydymaith Nyrsio yn llwyddiannus.

Pan fyddwch wedi cael cynnig eich cymhwyster i fod yn Nyrs neu'n Gydymaith Nyrsio ac wedi ei dderbyn, byddwn yn hysbysu eich corff proffesiynol i gadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais am gofrestriad proffesiynol ag ef.

6.3 Os, ar ôl i chi gwblhau'r gofynion academaidd, na chaiff cymhwyster Nyrsio ei ddyfarnu, byddwn yn darparu unrhyw adroddiad, geirda neu wybodaeth berthnasol yn unol â gofynion a chyfarwyddyd y Cyngor Nyrsio Bydwreigiaeth mewn perthynas â'r mater hwnnw. Gall hyn gynnwys ei drosglwyddo'n uniongyrchol i gyflenwr trydydd parti a ddefnyddir gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

## 7 Tynnu'n ôl o'ch astudiaethau neu eu gohirio

Noder: nid yw'r adran hon yn berthnasol i Brentisiaid sy'n astudio Rhaglen Brentisiaeth, a ddylai gyfeirio at Adran G5 "Newid eich cynlluniau astudio am resymau eithriadol neu bersonol" o'r Rheoliadau Academaidd (Prentisiaid).

### Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio (nad ydynt yn rhan o Raglen Brentisiaeth na Llwybr Annibynnol)

7.1 Os ydych yn bwriadu tynnu'n ôl o fodiwl neu ohirio cyn ei gwblhau, dylech drafod hyn â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr. Os byddwch wedi gohirio modiwl, bydd eich tîm cymorth, yn ei dro, yn cysylltu â'ch Noddwr Ariannol a/neu Noddwr Dysgu, a all fod yn atebol am unrhyw ffioedd ychwanegol pan fyddwch yn ailddechrau astudio'r modiwl.

7.2 Byddwn yn gweinyddu unrhyw Ad-daliadau Ffioedd sy'n ddyledus yn unol â'r Rheolau Ffioedd oni fyddwch wedi cytuno'n benodol â ni a'ch Noddwr Ariannol y dylai unrhyw ad-daliadau ffioedd gael eu gwneud yn uniongyrchol i'r Noddwr Ariannol.

### Myfyrwyr sy'n astudio cymhwyster Nyrsio ar y Llwybr Annibynnol

7.3 Os ydych yn bwriadu tynnu'n ôl o fodiwl neu ohirio cyn ei gwblhau, dylech drafod hyn â'ch Tîm Cymorth Myfyrwyr. Os ydych wedi gohirio modiwl, bydd eich Tîm Cymorth Myfyrwyr yn cysylltu â'ch Cyflogwr Llwybr Annibynnol. Mae'n bosibl y byddwch yn gyfrifol am ffioedd ychwanegol pan fyddwch yn ailddechrau astudio'r modiwl.

7.4 Byddwn yn gweinyddu unrhyw Ad-daliadau Ffioedd sy'n ddyledus yn unol â'r Rheolau Ffioedd.

# Diffiniadau

## Prentis /Dysgwr

Myfyriwr 16 oed neu drosodd, sydd mewn cyflogaeth â thâl drwy gydol ei brentisiaeth ac sydd â Chytundeb Prentisiaeth gyda'i gyflogwr. Bydd y Prentis yn cyfuno ei waith ag astudio am gymhwyster seiliedig ar waith, academaidd neu gyfunol. Bydd yn Brentis yn Lloegr sydd wedi'i gofrestru ar gyfer cymhwyster israddedig.

## Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid

Mae'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn rhoi cymorth i brentisiaid drwy daith eu Prentisiaeth. Mae'r Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn cynnwys tîm o Uwch-gynghorwyr sy'n cynnig cyngor a chymorth ar gyfer amrywiaeth o ymholiadau a all fod gan brentisiaid wrth astudio eu modiwlau, gan gynnwys cyngor ar aseiniad neu arholiad sydd ar ddod, defnyddio llwyfannau dysgu ar-lein, neu wrth wynebu amgylchiadau anodd sy'n effeithio ar eu hastudiaethau. Bydd y Tîm Cymorth ac Ymrestru Prentisiaid yn cysylltu â thimau eraill yn y Brifysgol er mwyn sicrhau bod prentis yn cael y wybodaeth, yr help a'r cymorth cywir.

## Ffurflen Addasu Prentisiaeth

Ffurflen a ddefnyddir i ofyn am gymeradwyaeth gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth i ni ychwanegu partner cyflogwr newydd at ein rhaglen prentisiaeth. Drwy'r broses hon, cynigiodd adolygiad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth safleoedd i sicrhau y gall y cyflogwyr a'r sefydliadau gynnig profiad addysg addas i Brentisiaid ar raglenni Prentisiaeth.

## Y Cod

Mae hwn yn cynnwys y safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd a Chymdeithion Nyrsio (gan gynnwys Myfyrwyr) a gyhoeddwyd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

## Cyswllt Cyflogi

Yr unigolyn a enwebwyd gan Noddwr Dysgu i ddarparu cyswllt gweithredol parhaus â'r Brifysgol Agored mewn perthynas â chyflwyno'r cymwysterau Nyrsio Cyn Cofrestru a gwmpesir gan y Cytundeb Atodol hwn.

## Noddwr Ariannol

Y sefydliad neu'r endid sy'n rhoi cymorth ariannol i chi, yn llawn neu'n rhannol, ar gyfer eich ffioedd dysgu a/neu gymorth ariannol arall sy'n gysylltiedig â'ch astudiaeth lle na chaiff ei ddarparu'n uniongyrchol gan eich Cyflogwr neu drwy fenthyciad ffioedd dysgu (Lloegr yn unig).

## Contract Anrhydeddus

Defnyddir contractau anrhydeddus ar gyfer myfyrwyr nad ydynt yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol ond a fydd yn ymgymryd ag ymarfer dysgu neu hyfforddiant ychwanegol drwy'r Cyflogwr Llwybr Annibynnol. Gan nad oes unrhyw gyflog ar gael ar gyfer y penodiad, nid oes unrhyw hawliau o ran taliad gwyliau, gwyliau banc, taliad salwch, treuliau teithio ac ati, a fyddai'n cael eu rhoi i gyflogai yn y sefydliad fel arall, ynghlwm â'r Contract hwn. Disgwylir iddynt gyflawni eu hymarfer dysgu neu hyfforddiant ychwanegol mewn modd diogel heb unrhyw risgiau i'w hiechyd eu hunain ac iechyd unrhyw berson y gallai eu gweithredoedd neu eu dyletswyddau effeithio arno. Disgwylir hefyd iddynt gydweithredu â'r sefydliad wrth gydymffurfio ag unrhyw reoliad statudol perthnasol a osodwyd gan y sefydliad.

## Llwybr Annibynnol

Llwybr astudio lle y bydd myfyrwyr yn astudio'r cymhwyster nyrsio heb gymorth ffurfiol gan gyflogwr. Byddant yn astudio ar y cyd â Chyflogwr Llwybr Annibynnol.

## Cyflogwr Llwybr Annibynnol

Y sefydliad y mae gennych Gontract Anrhydeddus ag ef er mwyn astudio'r cymhwyster hwn ac sy'n gyfrifol am eich cefnogi i ymgymryd ag ymarfer dysgu ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd eich Cyflogwr Llwybr Annibynnol hefyd yn darparu mynediad i amgylchedd ymarfer dysgu at ddibenion addysg Nyrsio.

## Cyswllt Cyflogwr Llwybr Annibynnol

Yr unigolyn a enwebwyd gan y Cyflogwr Llwybr Annibynnol i ddarparu cyswllt gweithredol parhaus â'r Brifysgol Agored mewn perthynas â chyflwyno'r cymwysterau Nyrsio Cyn Cofrestru a gwmpesir gan y Cytundeb Atodol hwn.

## Noddwr Dysgu

Eich cyflogwr a'r sefydliad y mae gennych gontract cyflogaeth parhaol ag ef ac sy'n gyfrifol am gefnogi'r broses o'ch rhyddhau i ymgymryd ag ymarfer dysgu ychwanegol a, lle y bo'n berthnasol, amser astudio y cytunwyd arno yn ystod oriau gwaith. Gall eich Noddwr Dysgu fod yn wahanol i'ch 'Noddwr Ariannol'.

## Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

Yr awdurdod rheoleiddio annibynnol ar gyfer nyrsys a bydwragedd yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

## Cymhwyster Nyrsio

Y Graddau Cyn Cofrestru, Graddau Sylfaen a Phrentisiaethau Gradd a gynigir gan Y Brifysgol Agored.

## Darparwr Lleoliad

Y sefydliad sy'n darparu mynediad i amgylchedd ymarfer dysgu at ddibenion addysg nyrsio. Gall gynnwys eich Noddwr Dysgu, Cyflogwr Llwybr Annibynnol ac unrhyw ddarparwyr lleoliadau ymarfer trydydd parti fel sy'n ofynnol i gyflawni cymwyseddau a deilliannau'r cymhwyster Nyrsio.

## Asesydd Ymarfer

Y person sy'n asesu ac yn cadarnhau bod y myfyriwr wedi cyflawni ymarfer dysgu ar gyfer lleoliad neu gyfres o leoliadau.

## Cyfleoedd Ymarfer Dysgu

Y profiadau dysgu a datblygu penodol sydd eu hangen o fewn y Cyfnod Ymarfer Dysgu er mwyn meithrin digon o wybodaeth seiliedig ar waith i gwblhau'r rhaglen Nyrsio.

## Cyfnod Ymarfer Dysgu

Cyfnod neu gyfnodau ymarfer dysgu, lle cewch eich adnabod yn ffurfiol fel Myfyriwr Nyrsio ychwanegol ac na chewch eich cynnwys ar restr ddyletswyddau'r gweithlu, a all ddigwydd yn eich man gwaith neu gyda thrydydd parti.

## Goruchwyliwr Ymarfer

Y person sy'n cefnogi ac yn goruchwylio Myfyrwyr/Prentisiaid Nyrsio a Bydwreigiaeth yn yr amgylchedd ymarfer dysgu. Rhaid i bob Myfyriwr/Prentis gael ei oruchwylio wrth ddysgu mewn amgylcheddau ymarfer.

## Tiwtor Ymarfer

Yr unigolyn a benodir gan Y Brifysgol Agored i ddarparu cymorth, arweiniad a sicrwydd ansawdd mewn perthynas ag ymarfer dysgu Myfyriwr ac asesiad yr Asesydd Ymarfer/Goruchwyliwr Ymarfer o gymhwysedd y Myfyriwr drwy gydol y cymhwyster Nyrsio.

## Rhaglen Nyrsio Cyn Cofrestru

Y term cyffredinol ar gyfer y llwybrau y mae Myfyrwyr/Prentisiaid yn eu hastudio er mwyn cymhwyso fel Nyrs neu Gydymaith Nyrsio wrth astudio Gradd Nyrsio, Gradd Sylfaen neu Brentisiaeth Gradd gyda'r Brifysgol Agored.

## Tiwtor Staff

Yr unigolyn neu'r unigolion a benodir gan Y Brifysgol Agored i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r cymwysterau Nyrsio ar lefel leol, gan gynnwys rheoli Darlithwyr Cyswllt a Thiwtoriaid Ymarfer a chynnal cysylltiadau â'r Noddwr Dysgu, fel arfer drwy'r Cyswllt Cyflogi.

## Tîm Cymorth Myfyrwyr

Mae Timau Cymorth Myfyrwyr yn cynnwys academyddion profiadol, cynghorwyr addysgol a staff eraill ag arbenigedd pwnc-benodol ac maent yno i helpu myfyrwyr os bydd ganddynt unrhyw gwestiynau am unrhyw agwedd ar eu hastudiaethau.

### Aelod o staff ychwanegol

Ystyr hyn yw na ddylech gael eich cyfrif fel rhan o'r staff sy'n ofynnol i ddarparu gofal diogel ac effeithiol yn y lleoliad hwnnw.

### Ni/Ein

Mae hyn yn cyfeirio at Y Brifysgol Agored.

## Deddfwriaeth a Pholisïau Cysylltiedig

Cyfeiriwch at y polisïau canlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

- Amodau Cofrestru neu Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid fel y bo'n berthnasol i'ch cymhwyster
- Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygiad) (Gogledd Iwerddon) 2004 ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ar gyfer Gogledd Iwerddon
- Deddf Cydraddoldeb 2010 i Gymru, Lloegr a'r Alban
- Rheolau Ffioedd (Astudiaeth Israddedig) ar gyfer eich maes ffioedd
- Polisi Statws Ffioedd
- Gweithdrefn Addasrwydd i Ymarfer
- Polisi Addasrwydd i Astudio
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth - Y Cod; Safonau ymarfer proffesiynol ac ymddygiad ar gyfer Nyrsys, Bydwragedd a Chymdeithion Nyrsio
- Rheoliadau cymhwyster-benodol ar gyfer eich cymhwyster Nyrsio
- Hysbysiad Preifatrwydd i Fyfyrwyr

## Safonau'r Gymraeg

Safonau'r Gymraeg

Rydym yn un o nifer o brifysgolion a enwir ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw fyfyrwyr yng Nghymru ddisgwyl cael gwasanaethau penodol gan Y

Brifysgol Agored drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain wedi'u hamlinellu yn [Safonau'r Gymraeg Y Brifysgol Agored].

Mae hyn yn golygu bod croeso i chi siarad â'n tîm Recriwtio a Chynorthwyo Myfyrwyr yn Gymraeg neu gysylltu â'r brifysgol yn Gymraeg. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau fel rhywun sy'n defnyddio'r Gymraeg ar [wefan Y Brifysgol Agored yng Nghymru].

### Gwerthoedd Siarter Ein Myfyrwyr

Cafodd [y Siarter Myfyrwyr] ei ddatblygu ar y cyd gan Y Brifysgol Agored ac Undeb Myfyrwyr Y Brifysgol Agored. Mae'n ddatganiad o'r gwerthoedd rydym yn eu rhannu a'r ymrwymiadau a wnawn i'n gilydd. Cafodd y ddogfen hon ei datblygu yn seiliedig ar werthoedd y Siarter Myfyrwyr.

### Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb a chynhwysiant yn rhan o bopeth a wnawn ac yn adlewyrchu ein cenhadaeth i fod yn agored i bobl, mannau, dulliau a syniadau. Rydym yn dathlu amrywiaeth a'r cryfderau sy'n deillio o hynny, gan herio cynrychiolaeth annigonol a gwahaniaethau mewn deilliannau yn ein sefydliad. Rydym yn hyrwyddo ac yn rheoli cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cyflawni ein nodau strategol a'n dyletswyddau cydraddoldeb statudol. Rydym yn gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys drwy ddatblygu polisi cynhwysol.

### Datganiad yr Elusen

Corfforir Y Brifysgol Agored drwy Siarter Frenhinol (RC 000391), ac mae'n elusen eithriedig yng Nghymru a Lloegr ac yn elusen gofrestredig yn yr Alban (SC 038302). Caiff Y Brifysgol Agored ei hawdurdodi a'i rheoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol mewn perthynas â'i gweithgarwch eilaidd, sef broceru credyd.

## Ynglŷn â'r Ddogfen hon

### Crynodeb o'r Newidiadau Sylweddol ers y fersiwn flaenorol

Bu sawl newid sylweddol ers fersiwn flaenorol y ddogfen hon. Sef:

a) Proses gyffredinol i ailstrwythuro'r ddogfen i gyd-fynd â thempled y Polisi Myfyrwyr newydd, gan gynnwys yr adrannau newydd ‘Fformat Amgen’ a ‘Sut i gysylltu â ni’, a symud y rhestr o bolisïau a deddfwriaethau cysylltiedig i ddiwedd y ddogfen.

b) Mae cyfeiriad at ‘Rhestr termau’ wedi'u diwygio i ‘Diffiniadau’.

c) Ychwanegiad at yr adran ‘Cyflwyniad’ yn amlinellu'r ffyrdd gwahanol y gall myfyrwyr astudio'r rhaglen Nyrsio Cyn Cofrestru a sicrhau y bydd cymalau yn nodi os nad yw'n gymwys i grŵp penodol o fyfyrwyr.

d) Mae cyfeiriadau at ‘Y Brifysgol Agored’ yn y ddogfen hon wedi'u disodli gan ‘ni’ neu ‘ein’ er mwyn gwella'r darllenadwyedd.

e) Tynnu paragraff yn y ‘Cyflwyniad’ yn nodi y bydd Y Brifysgol yn hysbysu Myfyrwyr a Phrentisiaid drwy e-bost os bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r ddogfen hon.

f) Paragraff newydd yn diffinio'r defnydd o ‘ni’ ac ‘ein’ yn y ddogfen hon.

g) Adran newydd ‘Bwlio, Aflonyddu a Chamymddwyn Rhywiol’.

h) Mae'r adran ‘Rhoi Gwybod Mewn Lle Diogel’ wedi'i ailenwi i ‘Rhoi Gwybod am Fwlio ac Aflonyddu’, a chyfeiriadau at ‘Rhoi Gwybod Mewn Lle Diogel’ wedi'u newid i ‘Rhoi Gwybod a Chymorth’.

i) Diwygiad i gymal 1.1 yn egluro y bydd angen i fyfyrwyr gwblhau'r broses o ddatgan cofnod troseddol cyn y caniateir iddynt ymgymryd ag unrhyw elfennau ymarferol o'r rhaglen.

j) Cymal 1.3 newydd yn nodi y gall fod angen cwblhau Ffurflen Addasu Prentisiaeth cyn cofrestru hefyd.

k) Cymal newydd yn nodi bod yn rhaid i fyfyrwyr fodloni'r gofynion a amlinellir yn eu Cynllun Hyfforddi er mwyn cael cymhwyster Prentisiaeth Nyrsio.

l) Mân ddiwygiadau i gymal 2.4.1 er mwyn gwella eglurder; nid yw ei ystyr wedi cael ei newid.

m) Mân ddiwygiadau i gymal 2.6.1 er mwyn gwella eglurder; nid yw ei ystyr wedi cael ei newid.

n) Tynnu paragraff yng nghymal 4.2 yn nodi y dylai myfyrwyr gyfeirio at y Rheolau Ffioedd i weld a ydynt yn gymwys i gael ffioedd ailadrodd is.

o) Egluro yng nghymal 4.3.2 nad oes angen ymarfer dysgu ar gyfer y modiwlau y cyfeirir atynt.

p) Diwygiad i gymal 4.3.3 i nodi y bydd cofrestriad ar Radd Nyrsio yn dod i ben os na all myfyriwr ddod o hyd i Noddwr Dysgu arall cyn dyddiad dechrau cyflwyno ei fodiwl nesaf.

q) Diwygiad i gymal 4.4.3 i nodi y bydd cofrestriad ar Radd Nyrsio yn dod i ben os na all myfyriwr ddod o hyd i Gyflogwr Llwybr Annibynnol cyn dyddiad dechrau cyflwyno ei fodiwl nesaf.

r) Cymal newydd 6.1a) yn nodi y gall Y Brifysgol Agored ddilysu gwybodaeth a roddir gan fyfyrwyr fel rhan o'r broses o wneud cais a chofrestru.

s) Diweddariadau ym mhob rhan o'r ddogfen at gyfeiriadau at ddeddfwriaeth cydraddoldeb yn y DU.

t) Diwygiad i gymal 6.2 i esbonio'n well y bydd Y Brifysgol Agored yn hysbysu'r corff proffesiynol perthnasol pan fydd myfyriwr wedi derbyn ei gymhwyster.

u) Mae'r adran 'Rhestr termau' wedi'i hail-enwi yn 'Diffiniadau'.

v) Diffiniad newydd ar gyfer 'Aelod o staff ychwanegol'.

w) Mae'r cyfeiriad at 'Gymdeithas Myfyrwyr Y Brifysgol Agored' wedi'i ddiwygio i 'Undeb Myfyrwyr Y Brifysgol Agored'.

## Amodau Cofrestru a Ddisodlir gan y Ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn disodli'r fersiwn flaenorol o Gytundeb Atodol Amodau Cofrestru (Nyrsio) 2024/25.

Mae'r ddogfen hon yn Gytundeb Atodol i'r Amodau Cofrestru neu'r Amodau Cofrestru ar gyfer Prentisiaid fel y bo'n berthnasol i'ch cymhwyster. Rhoddir blaenoriaeth i'r telerau ac amodau yn y Cytundeb Atodol hwn dros yr Amodau Cofrestru perthnasol lle maent yn wahanol.

## Gwybodaeth am y Ddogfen

Rhif y fersiwn: 1.0

Cymeradwywyd gan: Cynrychiolydd y Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Academaidd

Yn weithredol o: 1 Awst 2025

Dyddiad adolygu: Mawrth 2026

# Atodiad A

**Tabl 1**: **Amgylchiadau lle y gellir ystyried rhoi estyniad i fyfyrwyr gwblhau eu cymhwyster.**

| **Maen prawf** | **Amodau a nodiadau** | **Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen** |
|---|---|---|
| 1. Marwolaeth aelod agos o'r teulu, partner neu ddibynnydd. | Diffinnir aelod agos o'r teulu fel rhywun roeddech yn dibynnu arno (yn emosiynol neu'n ariannol) neu a oedd yn ddibynnol arnoch chi. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Copi ardystiedig o dystysgrif marwolaeth (gellir gwneud eithriad os digwyddodd y farwolaeth o fewn chwe wythnos cyn gwneud cais). |
| 2. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi neu ar ran aelod agos o'r teulu o ganlyniad i salwch difrifol, damwain neu gyflwr meddygol. | Os oeddech yn ymwybodol o'r problemau meddygol cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod y cyflwr wedi gwaethygu neu ddirywio ers hynny, h.y. ni ellid bod wedi rhagweld ar ddechrau'r modiwl y byddai'r salwch neu'r cyflwr wedi cael effaith andwyol ar eich astudiaethau. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. (Mae'n rhaid bod cyfnod y salwch wedi effeithio ar amseru'r penderfyniad i dynnu'n ôl). |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 3. Anabledd | Yr addasiadau rhesymol a wnaed gan Y Brifysgol Agored er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban; Rheoliadau Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 (Diwygiad) (Gogledd Iwerddon) 2004 ac Adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 ar gyfer Gogledd Iwerddon; neu unrhyw ddyletswydd neu rwymedigaeth statudol arall, heb eich galluogi i astudio'n effeithiol; neu<br><br>Mae effaith anabledd ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy difrifol na'r disgwyl; neu<br><br>Mae eich anabledd(au) wedi cael effaith gynyddol ar eich astudiaethau ers dyddiad dechrau'r modiwl. | Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa.<br><br>Tystiolaeth ategol o gofnodion y Brifysgol e.e. tiwtor, Tîm Cymorth Myfyrwyr neu Dîm Cymorth ac Ymrestru ar Brentisiaeth. |
| 4. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i feichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth. | Os oeddech yn ymwybodol o'r beichiogrwydd cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y beichiogrwydd neu famolaeth/tadolaeth neu fenthyg croth ar eich astudiaethau wedi bod | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br><br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan weithiwr iechyd proffesiynol, e.e. meddyg |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| | yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | teulu, meddyg ymgynghorol neu fydwraig yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 5. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i fabwysiadu. | Os oeddech yn ymwybodol o'r mabwysiadu cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod effaith y broses fabwysiadu neu'r cyfrifoldebau gofalu ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau cymdeithasol, asiantaeth mabwysiadu neu dystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |
| 6. Analluogrwydd annisgwyl am gyfnod estynedig ar eich rhan chi o ganlyniad i ailbennu rhywedd. | Os oeddech wedi bod drwy'r broses ailbennu rhywedd cyn dyddiad dechrau'r modiwl neu os oeddech yn ymwybodol erbyn hynny o'r trefniadau i wneud hynny ar ôl y dyddiad hwnnw, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Copi caled neu hysbysiad e-bost ac yna dystiolaeth ddogfennol.<br>Tystysgrif, llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol yn cadarnhau'r sefyllfa. |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 7. Newid annisgwyl mewn amgylchiadau cyflogaeth sy'n golygu nad yw'n rhesymol bosibl i chi barhau i astudio oherwydd natur eithafol y gwaith, cyfathrebu gwael neu ddiffyg cyfleusterau astudio. | Oni fydd aelod o luoedd arfog Prydan yn cael ei leoli yn rhywle, ni chaiff amgylchiadau a all godi fel rhan o fywyd gwaith arferol fel newid swydd, symud, llwyth gwaith cynyddol neu ofynion teithio rhesymol eu hystyried. | Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu e-bost gan eich cyflogwr neu bennaeth milwrol. |
| 8. Camweinyddu ar ran Y Brifysgol Agored. | Camau gweithredu neu ddiffyg camau gweithredu y gellid eu hystyried yn gamweinyddu ar ran Y Brifysgol Agored ac sydd wedi effeithio ar eich cynnydd academaidd. Nid yw hyn yn cynnwys amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth Y Brifysgol Agored. | Unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi eich cais e.e. cofnod o gyswllt myfyrwyr. |
| 9. Amgylchiadau eithriadol eraill o natur ddifrifol y tu hwnt i'ch rheolaeth. | Amgylchiadau y tu hwnt i'ch rheolaeth a wnaeth leihau'n sylweddol yr amser a oedd ar gael i chi astudio dros gyfnod parhaus. | Tystiolaeth ategol e.e. adroddiad gan y gwasanaethau brys, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu neu gwnselydd neu ddogfennaeth yswiriant y cartref. |

| Maen prawf | Amodau a nodiadau | Enghreifftiau o fathau o dystiolaeth ategol sydd ei hangen |
|---|---|---|
| 10. Newid annisgwyl mewn cyfrifoldebau gofalu. | Os oedd eich cyfrifoldebau gofalu ar waith cyn dyddiad dechrau'r modiwl, mae'n rhaid bod yr effaith ar eich astudiaethau wedi bod yn fwy na'r hyn y gellid bod wedi'i ddisgwyl yn rhesymol. | Hysbysiad ar ffurf copi caled neu e-bost, a ddilynir gan dystiolaeth ddogfennol, e.e. llythyr neu ddatganiad meddygol gan feddyg teulu, meddyg ymgynghorol, cynorthwyydd anfeddygol neu berson neu sefydliad cymorth yn cadarnhau'r sefyllfa. |